



## **Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer Bil Meysydd Carafannau Gwyliau (Cymru)**

---

1. Ar 17 Mawrth 2014, cafodd Bil Aelod, 'Bil Meysydd Carafannau Gwyliau (Cymru)', ei gyflwyno yn y Cynulliad.
2. Ar 18 Chwefror 2014, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.
3. Ar 11 Mawrth 2014, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, amserlen i'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chytunodd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 24 Hydref 2014.
4. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 6 Chwefror 2015, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.